

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar Ei Mawrhydi Berwyn

**Ar gyfer blwyddyn adrodd
01 Mawrth 2020 i 28 Chwefror 2021**

Cyhoeddwyd Medi 2021

Cynnwys

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

Tudalen

1.	Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol	3
2.	Disgrifiad o'r sefydliad	4
3.	Crynodeb gweithredol	5
Adrannau tystiolaeth 4 – 7		
4.	Diogelwch	8
5.	Triniaeth heb greulondeb	10
6.	Iechyd a lles	13
7.	Cynnydd ac ailsefydlu	15

Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

17

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

18

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol.
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalffa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau sy'n cadw pobl yn gaeth, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae CEM Berwyn yn Stad Ddiwydiannol Wrecsam, Gogledd Cymru. Mae'n garchar derbyn, ailsefydlu a hyfforddi categori C, ac mae'n gallu dal 2,106 o garcharorion. Yn ystod pandemig Covid-19, cafodd hyn ei leihau i 1,801.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd uned ar gyfer carcharorion agored i niwed, gan gynnwys nifer o ddynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol (MCOSO). Dyma'r tro cyntaf i'r carchar gael capasiti gweithredol bron yn llawn ers iddo agor yn 2017 (y boblogaeth fisol gyfartalog ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn oedd 1725 o garcharorion).

Mae'r carchar yn cynnwys tri phrif ddy: Alwen, Bala a Ceiriog. Rhennir pob tî yn wyth cymuned. Mae'r llety ym mhob cymuned yn gyfuniad o gelloedd dwbl a sengl. Ar draws y carchar, mae 30% o'r celloedd yn rhai deiliadaeth sengl, a 70% yn rhai deiliadaeth ddwbl. Ynghyd â'r prif gymunedau, mae gan y carchar uned gofal a gwahanu (Ogwen), sy'n gallu dal 21 o garcharorion.

3. Crynodeb gweithredol

3.1 Cefndir yr adroddiad

Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Bwrdd i gasglu gwybodaeth. Mae tystiolaeth y Bwrdd fel arfer yn deillio o arsylwadau a wnaethpwyd ar ymweliadau, craffu ar gofnodion a chyswllt anffurfiol â staff a charcharorion yn ogystal â thrwy geisiadau gan ddynion i'r Bwrdd Rheoli Annibynnol. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn adrodd hon, ychydig o fonitro wyneb yn wyneb sydd wedi digwydd. Mae hyn wedi golygu bod staff neu ddynion yn dibynnu mwy ar y Bwrdd o ran trosglwyddo gwybodaeth, yn hytrach nag arsylwi personol gan aelodau'r Bwrdd. Felly, mae'r Bwrdd wedi gwneud ei orau i ymdrin â chymaint â phosib yn yr amgylchiadau anodd hyn, ond yn anochel mae llai o fanylder a thystiolaeth ategol na'r arfer. Lle nad yw'r dystiolaeth wedi'i gweld yn uniongyrchol gan aelod, nodir ffynhonnell yr wybodaeth. Mae'r Gweinidogion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hyn. Mae gwybodaeth reolaidd yn cael ei chasglu'n benodol am ymateb y carchar i'r pandemig, ac mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu ynghyd ar lefel genedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o amser y Bwrdd wedi'i dreulio yn casglu, yn ymchwilio ac yn ateb y ceisiadau a dderbyniwyd gan rif rhadffôn 0800, a oedd ar gael i ddynion yn ystod pandemig Covid-19 gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Rheoli Annibynnol. Roedd y Bwrdd hefyd wedi parhau i dderbyn rhai ceisiadau papur. Derbyniwyd cyfanswm o 826 o geisiadau o'i gymharu â chyfanswm o 598 yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod y Llywodraethwr a'i staff wedi gweithio'n galed i leihau effeithiau cwtogi ar y drefn adsefydlu arferol yn y Berwyn ac i reoli'r effaith gythryblus a achoswyd gan Covid-19, yn enwedig pan laciodd mesurau y tu mewn i'r carchar ar gyfradd arafach na'r rhai ar y tu allan.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Bwrdd wedi gorfod mabwysiadu strategaethau gwahanol ar gyfer monitro, ac rydym yn diolch i'r Llywodraethwr a'i holl dîm am ateb ein galwadau ffôn a'n negeseuon e-bost i gefnogi ein gwaith. Mae'r cydweithrediad hwn wedi galluogi'r Bwrdd i adrodd ar ein canfyddiadau a nodir isod.

3.2 Prif farnau

Pa mor ddiogel yw'r carchar?

Mae'r Bwrdd yn credu bod y sefydliad yn ddiogel. Yn unol â phob sefydliad, mae dynion wedi bod yn gaeth i'w hystafelloedd am gyfnodau hir. Am ragor o wybodaeth, gweler adran 4.

Pa mor deg a dyngarol gaiff carcharorion eu trin?

Mae'r Bwrdd yn credu bod trefn gwrtais a pharchus ar y cyfan ac mae'r berthynas rhwng staff a charcharorion yn dda iawn ar y cyfan. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau Covid-19 wedi achosi i rai carcharorion ystyried bod eu triniaeth wedi bod yn annheg ac yn annynol. Ar ein hymweliadau rota cyfyngedig, nodwyd bod staff ar bob lefel yn amlwg iawn, ac roedd y rhan fwyaf o ddynion yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chefnogaeth. Cred y Bwrdd fod y llety a gynigir o safon dda.

Pa mor dda mae anghenion iechyd a lles carcharorion yn cael eu diwallu?

Mae'r Bwrdd yn nodi bod lefel y ddarpariaeth gofal iechyd yn gyffredinol gystal â'r ddarpariaeth yn y gymuned ac, mewn rhai achosion, yn well wrth adolygu cymarebau cleifion i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Fodd bynnag, mae cywerthedd gwasanaeth yn bwysig, a rhaid ystyried crynodiad problemau corfforol, seicolegol a deintyddol ymysg poblogaeth y carchar. Felly, efallai na fydd y gwasanaethau a gynigir yn ddigonol, gyda'r amseroedd aros ar gyfer gofal deintyddol er enghraifft yn gweithredu ar ôl 12 mis.

Pa mor dda mae carcharorion yn symud ymlaen tuag at ailsefydlu llwyddiannus?

Mae'r Bwrdd yn nodi bod rheoli dedfrydau wedi bod yn arbennig o anodd o dan gyfyngiadau Covid-19. Mae'r tîm adsefydlu wedi gweithio gyda dynion cyn eu rhyddhau i gefnogi eu hanghenion yn ddigonol.

Mae'r rhan fwyaf o ddynion yn cael eu rhyddhau i ryw fath o lety sefydlog a deallwn fod y carchar yn cymharu'n ffafriol â sefydliadau eraill o ran cyflawni hyn. Er hynny, mae rhywfaint o waith i'w wneud o hyd.

Er gwaethaf yr amodau anodd a'r drefn gyfyngedig, ystyrir bod pob ymdrech wedi'i wneud i ddarparu mynediad at addysg. Ar ben hynny, rydyn ni o'r farn bod ymdrechion wedi cael eu gwneud yn ystod cyfnodau clo Covid-19 i roi dynion mewn gwaith hanfodol.

3.3 Prif feysydd i'w datblygu

I'R GWEINIDOG

Hoffai'r Bwrdd gael sicrwydd y bydd y materion ehangach sy'n ymwneud â'r diffygion paent difrifol a'r systemau gwresogi aneffeithiol yn cael eu datrys yn y dyfodol agos. Mae peidio â datrys neu oedi'r gwaith hwn yn arwain at heriau mawr o ran

capasiti a gweithrediad y sefydliad ac mae'r materion craidd yn peri anfantais i'r dynion sy'n cael eu cartrefu yno.

Mae'r Bwrdd yn nodi bod y carchar wedi profi oedi sylweddol o ran gallu trosglwyddo dynion i sefydliadau a lleoliadau mwy priodol, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â salwch meddwl. Mae'r Bwrdd o'r farn bod angen mynd i'r afael â'r diffyg cyfleusterau iechyd meddwl diogel fel mater o frys.

I'R GWASANAETH CARCHARDAI

Mae'r Berwyn wedi elwa eleni drwy gael uwch dîm rheoli sefydlog yn gyffredinol, sydd wedi eu helpu i lywio'r sefydliad drwy'r cyfnod anodd a heriol hwn.

Rhaid datrys y problemau difrifol o ran diffyg paent a systemau gwresogi aneffeithiol. Mae'r Bwrdd wedi cael gwybod y gallai trafodaethau cytundebol gymryd peth amser ac er bod hynny'n ddealladwy, mae'r materion craidd yn peri niwed i'r carchar ac i ddynion sy'n cael eu cartrefu yno.

Mae'r Bwrdd yn nodi y byddai'r amser aros hir am ofal deintyddol a gwelliannau i'r ddarpariaeth gwasanaeth er mwyn lleihau hyn er budd y dynion.

Ar ben hynny, derbyniwyd llawer o geisiadau gan ddynion sydd wedi cael statws categori D. Mae'r dynion hyn yn teimlo'n rhwystredig iawn oherwydd prinder llefydd i gael eu trosglwyddo iddynt, mae'n debyg oherwydd cyfyngiad o ran y capasiti gweithredol ar gyfer y manau agored mewn carchardai yn ystod Covid-19.

I'R LLYWODRAETHWR

Nodwyd y gallai, ac y dylai, nifer o faterion a ddaeth yn gwynion ffurfiol fod wedi cael sylw ar lefel gymunedol. Mae ymatebion i'r cwynion hyn (hynny yw, Comp 1s a Comp 1as) yn dal yn broblem yn y sefydliad, o ran amserlen ac ansawdd yr ymateb.

Mae'r Bwrdd yn poeni am y lefelau uchel o hunan-niweidio, ymosodiadau a defnyddio grym.

Fel Bwrdd, rydym wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiadau o ddydd i ddydd, yn ôl adroddiad y swyddogion.

3.4 Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf

Mae'r Bwrdd yn nodi bod diffyg ystafelloedd cyfarfod a manau cyfweld yn bryder yn ein hadroddiad blaenorol. Cafodd y ddarpariaeth hon ei chryfhau yn ystod y flwyddyn adrodd, gyda nifer sylweddol o staff yn cael eu hadleoli i weithio ym maes diwydiant. Roedd gwaith cynllunio ar y gweill i droi gweithdy yn ganolfan adsefydlu, lle bydd podiau cyfarfod ar gael. Roedd y ganolfan i fod i agor ar ôl i'r cyfnod adrodd ddod i ben.

Nododd y Bwrdd hefyd yr angen am gymunedau mwy arbenigol, gydag angen penodol i garcharorion agored i niwed gael eu cartrefu'n ddiogel, gan leihau hunanynysu. Ers cyflwyno MCOSOs, mae Berwyn wedi gallu cynnig trefn ar wahân i garcharorion agored i niwed. Fodd bynnag, mae effeithiau Covid-19 wedi golygu bod rhai cymunedau arbenigol wedi dychwelyd i'r boblogaeth gyffredinol.

Roedd rhai gwelliannau o ran y broblem hirdymor gyda'r system wresogi yn ystod y cyfnod adrodd.

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4. Diogelwch

4.1 Derbyn a chynefino

Barn y Bwrdd yw bod dynion sy'n cyrraedd y dderbynfa yn cael eu cyfarch mewn amgylchedd awyrog, golau a chroesawgar. Ceir ystafelloedd unigol, lle cynhelir cyfweiliadau ac mae'r holl ddynion yn cael eu gweld gan staff nyrsio cyn cael eu lleoli yn yr uned gynefino.

Mae'r Bwrdd wedi recordio fideo croeso i ddarparu gwybodaeth allweddol. Mae hyn ochr yn ochr ag adrannau eraill yn y sefydliad ac ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau, bydd y negeseuon yn cael eu dangos i bobl sy'n cyrraedd o'r newydd ar eu gliniaduron mewnol tra byddant yn eu hystafelloedd. Mae cyflwyno'r sganiwr corff yn ystod y cyfnod adrodd yn fuddsoddiad diogelwch sylweddol, y cyfeirir ato eto ym mharagraff 4.6 isod.

4.2 Hunanladdiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y ddalfa

Cofnodwyd 1431 o achosion o hunan-niwedio, sy'n gynnydd o 34% o'r 1068 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Agorwyd 958 o gynlluniau asesu, gofal yn y ddalfa a thriniaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu ag 867 y llynedd, sy'n gynnydd o 9.6%, ond mae angen gweld hyn yn erbyn cynnydd o 16.5% ym mhoblogaeth y carchar am yr un cyfnod. Felly, mae hyn yn ostyngiad cymesur. Serch hynny, bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro'r meysydd hyn yn ofalus.

Mae'r Bwrdd yn nodi'n drist bod tair marwolaeth wedi bod yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Er nad yw wedi'i gadarnhau eto drwy gwestau crwner ffurfiol, dywedir bod un yn sgil achosion naturiol, roedd un wedi'i achosi gan yr unigolyn ei hun, ac roedd un oherwydd Covid-19. Mae pob marwolaeth yn y ddalfa yn destun ymchwiliad annibynnol llawn gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth, yr Heddlu a thîm y Gwasanaeth Carchardai. Mae'r Bwrdd yn estyn ei gydymdeimlad i deulu a ffrindiau'r tri dyn ymadawedig.

Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad bob dydd gan y swyddog negesau sy'n rhoi manylion pob digwyddiad yn ystod y 24 awr diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y carcharorion mwyaf agored i niwed ac mewn perygl. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cael cofnodion dalfa fwy diogel, sydd unwaith eto'n cofnodi materion ac anghenion y rhai mwyaf agored i niwed.

4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

Roedd 301 o ymosodiadau ar garcharorion, 38 ohonynt yn rhai difrifol, sy'n cynrychioli 13%. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd y ffigurau cyfatebol yn 564, gyda 72 ohonynt yn cael eu hystyried fel rhai difrifol, sy'n cynrychioli 13%. Roedd 258 ymosodiad ar staff, 22 ohonynt yn cael eu hystyried yn rhai difrifol, sy'n cynrychioli 4%. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd 258 hefyd, 20 ohonynt yn rhai difrifol, sef 8%. Mae'r Bwrdd yn nodi'r gostyngiadau hyn ond mae lle i wella bob amser.

Mae'r sefydliad yn darparu nifer o rolau ar gyfer carcharorion sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch – sef cynrychiolwyr lleihau trais, Gwrandawyr, mentoriaid, 'torwyr cadwyni' a'r bartneriaeth barhaus gyda changen leol y Samariaid. Mae'r grwpiau hyn yn mynychu cyfarfodydd diogelwch misol â Llywodraethwyr ac yn cyfrannu at amgylchedd mwy diogel i gyd.

4.4 Carcharorion â gwendidau penodol

Derbyniodd y Bwrdd nifer sylweddol o geisiadau gan garcharorion agored i niwed ac yn ystod ein proses ymchwilio, buom yn cysylltu ag aelodau allweddol o'r staff i gael atebion a diweddariadau.

4.5 Defnyddio grym

Mae'r Bwrdd yn nodi bod 1326 o achosion o ddefnyddio grym wedi eu cofnodi yn ystod y cyfnod adrodd. O'r digwyddiadau hyn, nodir y bu cynnydd o 5% pan gynyddodd y boblogaeth 16.5%.

4.6 Camddefnyddio sylweddau

Cynhaliwyd cyfanswm o 524 o brofion cyffuriau gorfodol yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, cafodd y rhaglen MDT ar hap ei gohirio am gyfnodau yn ystod pandemig Covid-19, lle cynhaliwyd profion yn seiliedig ar wybodaeth yn unig.

Mae'r Bwrdd yn nodi bod sganiwr corff bellach yn ei le yn y dderbynfa, mae staff yn chwilio hefyd ac mae rhwydi wedi eu gosod dros yr iardiau ymarfer i atal taflu eitemau drosodd.

5. Triniaeth deg a dyngarol

5.1 Llety, dillad, bwyd

Mae'r materion a nodir isod yn peri pryder ac fe'u codwyd mewn adroddiadau blaenorol gan y Bwrdd.

Mae pa mor ddibynadwy yw system wresogi'r adeilad yn dal i beri pryder. Mae'r system wedi methu o'r blaen, gan arwain at ddiffyg gwres a dŵr poeth i garcharorion. Mae system wrth gefn ar waith yn awr. Dylid nodi mai dim ond i dri phrif dŷ'r carcharorion y mae'r system wrth gefn hon yn berthnasol, nid gweddill y lleoliadau ar y safle. Fodd bynnag, mae hyn yn codi pryderon gan fod yr adeilad yn gymharol newydd a bod y potensial yr aflonyddwch y gellir ei achosi gan ddiffyg gwres a dŵr poeth yn uchel. Ni fu dim methiannau gwresogi eleni, ond nid yw'r system yn gweithio o hyd ac nid yw wedi cael ei chymeradwyo'n gywir eto, ryw bedair i bum mlynedd ar ôl ei hagor.

Gan fod y sefydliad wedi'i adeiladu o'r newydd, mae'n siomedig nodi bod y plastr ar y waliau wedi'i baratoi a'i osod yn anghywir. Mae hyn wedi achosi diffygion paent cudd, ac i baent gormodol bilio yn ystafelloedd carcharorion. Mae rhywfaint o waith gwella wedi'i wneud. Fodd bynnag, mae'n dal yn fater i'w ddatrys rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r contractwr, gyda chymorth timau cyfreithiol y llywodraeth. Canlyniadau oedi pellach yw nad yw'r amodau ar gyfer y carcharorion yn cyrraedd y safon y byddem yn ei disgwyl.

Hoffai'r Bwrdd gael sicrwydd y bydd y materion ehangach sy'n ymwneud â'r diffygion paent difrifol a'r systemau gwresogi aneffeithiol yn cael eu datrys yn y dyfodol agos. Mae'r Bwrdd wedi cael gwybod y gallai trafodaethau cytundebol gymryd peth amser. Bydd peidio â datrys y broblem, neu oedi'r gwaith, yn golygu heriau mawr o ran capasiti a gweithrediad y sefydliad.

Mae rhannu celloedd yn cael ei godi'n rheolaidd fel mater gan y dynion i aelodau'r Bwrdd ar ymweliadau rota a thrwy geisiadau. Fodd bynnag, nid oes

modd i'r sefydliad ddarparu'r hyn nad oes ganddo i'w ddarparu. Mae dylunio'r carchar gyda 70% o ystafelloedd fel ystafelloedd dwbl a 30% fel ystafelloedd sengl yn achosi heriau sylweddol i'r carcharorion a'r staff – yn enwedig o ystyried y nifer uchel o garcharorion nad ydynt yn gallu rhannu oherwydd gofynion asesu risg rhannu celloedd, cyflyrau meddygol, ac amrywiol faterion unigol eraill.

Caiff bwyd ei gynhyrchu ar y safle gan y dynion, gyda chefnogaeth ambell aelod o staff. Mae'n dda adrodd mai ychydig iawn o gwynion y mae'r Bwrdd yn eu cael am fwyd, derbyniwyd 14, un yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

5.2 Gwahanu

Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, dim ond ychydig o bresenoldeb mewn adolygiadau sydd wedi bod yn bosibl. Fodd bynnag, hoffai'r Bwrdd gydnabod y dull proffesiynol a gofalgarn roeddent yn gweld staff yn ei ddefnyddio wrth weithio gyda charcharorion yn CASU ar ein nifer cyfyngedig o ymweliadau.

Profodd y carchar oedi sylweddol o ran gallu trosglwyddo dynion i sefydliadau a lleoliadau mwy priodol, yn enwedig y rheini oedd yn ymwneud â salwch meddwl. O ganlyniad i hyn, roedd rhai dynion yn treulio cyfnodau hir ar wahân nad oedd modd eu hosgoi. Mae'r Bwrdd o'r farn bod angen mynd i'r afael â'r diffyg cyfleusterau iechyd meddwl diogel fel mater o frys.

5.3 Perthynas rhwng staff/carcharorion/dibynyddion, gweithwyr allweddol

Ychydig o arsylwadau ymarferol sydd gan y Bwrdd i'w defnyddio. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi nodi, fel y soniwyd ym mharagraff 4.2 uchod, y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar staff, er y dylid ystyried hyn yn erbyn cefndir y cynnydd yn nifer y carcharorion.

Tua diwedd y cyfnod adrodd, dechreuodd y Bwrdd weld gwelliant sylweddol yn nifer yr ymyriadau gweithwyr allweddol a bydd yn dymuno asesu effaith hyn yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Bwrdd yn nodi mai dim ond 14 o geisiadau sydd wedi dod i law yn ystod y flwyddyn adrodd hon ynghylch cydraddoldeb, sy'n debyg i 12 cais y flwyddyn flaenorol. Oherwydd ein gwaith monitro cyfyngedig, mae arsylwadau uniongyrchol y Bwrdd wedi'u lleihau. Cynhaliodd y sefydliad gyfarfodydd cydraddoldeb ac amrywiaeth rheolaidd, gyda'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn cael y cofnodion i'n helpu i fonitro a llunio'r adroddiad hwn.

Noda'r Bwrdd i'r sefydliad gynnal arolwg yn ystod y flwyddyn adrodd ynghylch a oedd dynion yn teimlo eu bod wedi cael ymchwiliad teg a diduedd i'w cwyn os oedd hil y dyn yn ffactor yn y gŵyn.

Ar ben hynny, mae'r Bwrdd yn nodi bod sesiynau hyfforddi wedi cael eu cyflwyno i staff ynghylch y broses ffurflen cofnodi digwyddiadau gwahaniaethu (DIRF) yn ystod y flwyddyn adrodd hon a bod y Llywodraethwr wedi ymrwymo i gyflawni rôl sicrhau ansawdd ar ymatebion DIRF.

O ran y Gymraeg, mae'r Bwrdd yn nodi bod mentoriaid a hyrwyddwyr y Gymraeg wedi eu lleoli ym mhob tîm ac mae mentor yn cael ei anfon i gyfarch pobl newydd sy'n cyrraedd y dderbynfa a'r gymuned gynefino. Mae'r Bwrdd yn falch o adrodd i

Fwrdd Parôl cyntaf Cymru gael ei gynnal yn Berwyn yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Ar ben hynny, mae sianel deledu Gymraeg wedi ei lansio o fewn y sefydliad.

5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

Mae'r gwasanaeth caplaniaeth wedi addasu yn ystod pandemig Covid-19 ac mae'r Bwrdd yn nodi bod sianel deledu caplaniaeth wedi cael ei lansio, ochr yn ochr â llinell gymorth a phecynnau gweithgareddau.

5.6 Cynlluniau cymhellion

Nid oes gan y Bwrdd lawer o sylwadau uniongyrchol am y cynllun cymhellion a breintiau haeddiannol fel y cânt eu gweithredu yn y Berwyn, oherwydd y cyfyngiadau ar ein gwaith monitro yn ystod y flwyddyn adrodd.

5.7 Cwynion

Mae'r Bwrdd wedi gweithio'n agos gydag adran gwynion y carchar dros y flwyddyn adrodd i ateb ceisiadau i'r Bwrdd Rheoli Annibynnol. Mae'r Bwrdd yn ddiochgar am y gefnogaeth a roddwyd gan y tîm.

Fodd bynnag, mae'r Bwrdd o'r farn bod angen gwella'r broses gwyno yn y Berwyn. Pan na fydd materion yn cael eu datrys ar y cam anffurfiol ar gymunedau a phan na fydd dynion yn cael cyswllt â'u gweithiwr allweddol neu'n cael eu cyfeirio at linellau cymorth neu wasanaethau perthnasol, cyflwynir cwynion ffurfiol a cheisiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol.

Mae'r system gwyno wedyn yn cael ei llethu, ac nid yw ymatebion bob amser yn cael eu rhoi ar amser nac i safon briodol. Mae'r Bwrdd yn nodi bod gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn a bydd aelodau'n parhau i fonitro cwynion yn agos.

5.8 Eiddo

Oherwydd y gostyngiad mewn trosglwyddiadau carchar a chanllawiau Covid-19 ynghylch delio ag eiddo sy'n cael ei drosglwyddo, mae'r Bwrdd wedi cael dros 58% yn llai o geisiadau gan garcharorion sy'n ymwneud â'u heiddo.

6. Iechyd a lles

6.1 Gofal iechyd cyffredinol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gofal iechyd yng Ngharchar EM y Berwyn. Barn y Bwrdd yw bod lefel y gofal iechyd yn gyffredinol yr un fath â'r gofal a ddarperir i'r cyhoedd. Oherwydd gwaith monitro wyneb yn wyneb cyfyngedig y Bwrdd yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae'r adran gofal iechyd wedi darparu gwybodaeth i'r Bwrdd er mwyn ein helpu i fonitro a llunio'r adroddiad hwn.

Mae'r Bwrdd yn nodi bod 319 aelod o staff wedi cael canlyniad Covid-19 positif yn ystod y flwyddyn adrodd, gyda 163 o ddynion yn cael canlyniad positif. O ystyried maint y carchar a'r grŵp staff, mae hyn yn gadarnhaol o'i gymharu â llawer o garchardai eraill.

Mae'r Bwrdd yn nodi ein bod wedi cael 150 o geisiadau am bryderon iechyd, o'i gymharu â 57 yn y flwyddyn adrodd flaenorol. Mae hyn yn gynydd o dros 163% o un flwyddyn i'r llall. Nid yw hyn yn syndod o ystyried ein bod, am un mis ar ddeg o'r cyfnod adrodd, yng nghanol pandemig byd-eang Covid-19, a oedd wedi effeithio'n sylweddol ar y drefn garchardai ac wedi dwysáu pryderon y dynion.

6.2 Gofal iechyd corfforol

Yn y sefydliad, mae'r lefelau staffio'n cynnwys dau feddyg teulu ac un deintydd. Cyflogwyd ail ddeintydd tua diwedd y flwyddyn adrodd, ar draul un hylenydd deintyddol yn llai. Mae'r Bwrdd yn nodi bod yr amseroedd aros ar gyfartaledd oddeutu chwe wythnos i weld meddyg teulu a 12 mis i weld deintydd. Mae hyn wedi bod yn bryder i'r gymuned, ond mae'r Bwrdd a'r Llywodraethwr yn dal i boeni am yr amseroedd aros ar gyfer gofal deintyddol.

Mae'r Bwrdd yn nodi'r strategaeth optimeiddio meddyginiaethau sydd ar waith yn y Berwyn, lle mae'r holl ddynion yn cael eu brysennu yn y dderbynfa, gyda'u cyflyrau meddygol yn cael eu hadolygu a meddyginiaethau eildro yn cael eu hoptimeiddio lle bo hynny'n berthnasol yn glinigol. O ganlyniad i'r strategaeth hon, mae dynion yn teimlo'n ofidus heb feddyginiaeth yr oeddent yn arfer ei chael o'r blaen; yn cael eu gorfodi i ddadwenwyno; yn ddryslyd ynghylch pam na allant

gael y meddyginiaethau hyn mwyach sydd wedi arwain at gynnydd mewn cwynion.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mynychwyd 51,415 o apwyntiadau, gwastraffwyd 1828 o slotiau apwyntiad a chofnodwyd 'heb fod yn bresennol' fel y rheswm a gwastraffwyd 1891 o slotiau apwyntiad gyda'r rheswm 'methu bod yn bresennol'. Mae cyfanswm canran yr absenoldeb yn 7.2% ac mae'r Bwrdd yn dal i boeni am yr effaith y mae peidio â bod yn bresennol yn ei chael ar amseroedd aros a lles y dynion.

6.3 Iechyd meddwl

Mae'r darparwr gofal iechyd yn darparu cymorth iechyd meddwl fel rhaglen yn y gymuned sydd ag wyth aelod o staff wedi'u hyfforddi. Cyfeiriwyd ym mharagraff 6.1 uchod at yr oedi wrth drosglwyddo oherwydd y diffyg gwelyau iechyd meddwl arbenigol addas sydd ar gael.

6.4 Gofal cymdeithasol

Mae'r Bwrdd yn nodi bod asesiadau'n cael eu cynnal gan yr adran gofal iechyd ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae hwn yn wasanaeth newydd ac fe'i croesewir.

6.5 Ymarfer corff, trefn

Yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn adrodd, mae Berwyn wedi bod o dan ryw lefel o gyfyngiadau neu gyfyngiadau symud. Mae hyn wedi arwain at lai o drefn lle ar adegau, byddai dynion ond yn cael eu lleiafswm statudol o 30 munud yn yr awyr agored bob dydd.

Roedd llai o apwyntiadau yn y gampfa a llai o gyfle i ymarfer corff, sydd wedi arwain at gryn rwystredigaeth ymysg dynion a nifer o gwynion i'r sefydliad.

6.6 Adsefydlu oherwydd cyffuriau ac alcohol

O fewn y Berwyn, nid oes unrhyw gymunedau arbenigol sy'n canolbwyntio ar ailsefydlu ym maes cyffuriau ac alcohol. Caiff dynion eu sgrinio ar gyfer camddefnyddio sylweddau wrth iddynt gael eu derbyn ac mae'r adran gofal iechyd yn cefnogi dynion sy'n cael cymorth, yn ôl yr angen clinigol. Caiff cefnogaeth ôl-ryddhau ei chynnig a'i chwblhau ar y cyd â mudiadau cymunedol.

6.7 Sgiliau meddal

Mae'r Bwrdd yn nodi bod nifer o'r sesiynau a fyddai fel arfer yn cael eu cynnal i gyfoethogi cymunedau wedi cael eu gohirio oherwydd Covid-19. Fodd bynnag, mae'r rhaglen pecynnau tynnu sylw wedi cael ei hehangu, er mwyn caniatáu mynediad at ddeunyddiau a chynnyrch i leihau diflastod yn ystod y cyfyngiadau symud.

7. Cynnydd ac ailsefydlu

7.1 Addysg, llyfrgell

Oherwydd gwaith monitro wyneb yn wyneb cyfyngedig y Bwrdd yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae staff Coleg y Berwyn wedi darparu gwybodaeth i'r Bwrdd er mwyn ein helpu i fonitro a llunio'r adroddiad hwn.

Mae addysg yn parhau i gael ei darparu yng Ngholeg y Berwyn gan Novus Cambria, partneriaeth rhwng Coleg Cambria a Novus Cambria, gyda'r llyfrgell yn cael ei darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam.

Roedd addysg yn cael ei darparu'n bennaf drwy ddulliau yn yr ystafell ddosbarth. Roedd pecynnau addysg ar gael i ddynion a gallai dynion ddefnyddio eu gliniaduron yn yr ystafell ddosbarth i gael mynediad at gyrsiau a deunyddiau addysg.

Gadawodd Cyngor Wreccsam y safle ym mis Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 a dychwelodd ym mis Rhagfyr 2020. Roedd staff mewnol y Berwyn wedi creu platfform digidol lle gallai'r dynion archebu llyfrau'n uniongyrchol o'u hystafell ar eu gliniaduron, a oedd yn cynyddu mynediad at lyfrau llyfrgell yn ystod y cyfnod hwn.

Defnyddiodd y staff y system hon hefyd i ganfod dynion yr oedd angen cymorth arnynt i ddysgu darllen neu ysgrifennu. Cafodd cynllun darllen Ymddiriedolaeth Shannon ei lwytho ar system y gliniadur i helpu gyda sgiliau darllen ac ysgrifennu. Rhoddwyd templedi penllythyr ac arweiniad ar ysgrifennu i ddynion a oedd yn esbonio sut i lunio ac ysgrifennu llythyrau gartref a sut i ysgrifennu cardiau yn ystod cyfnodau gwyliau.

Mae'r Bwrdd yn parhau i dderbyn diweddariadau ac ystadegau gan y llyfrgell.

7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

Fel arfer, mae gan y Berwyn chwe gweithdy gyda chapasiti uchaf o 520 sy'n darparu nifer o gyfleoedd gwaith medrus, lled-grefftus a gwaith â llaw ar draws amrywiaeth o feysydd gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys: gosod dodrefn; ailgylchu CD/DVD; canolfan alwadau; gwnïo; tecstilau a pheirianeg/saernïo. Oherwydd Covid-19, cafodd y gweithdai eu cau yn gyfan gwbl drwy gydol yr adroddiad hwn. Yr unig eithriad i hyn oedd dyrannu tri dyn i'r gweithdy weldio rhwng mis Medi 2020 a mis Rhagfyr 2020 i gefnogi gwaith hanfodol.

Croesawodd y Bwrdd y gwaith o gwblhau'r gwaith o adnewyddu rhannau olaf adeilad y diwydiant yn rhan olaf y cyfnod adrodd.

Mae'r Bwrdd hefyd yn nodi bod gwaith wedi parhau yn y depo DHL i gyflawni archebion ffreutur, yn y ceginau i goginio a danfon bwyd, ac yn yr adrannau rheoli gwastraff, er bod llai o gapasiti er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol.

7.3 Rheoli troseddwy, cynnydd

Mae'r Bwrdd yn nodi bod hon wedi bod yn flwyddyn heriol o ran rheoli troseddwy'r dedfrydau, gyda'r gallu i drosglwyddo wedi lleihau'n sylweddol.

Hoffai'r Bwrdd nodi ei bryderon ynghylch y lleoedd trosglwyddo sydd ar gael i ddynion symud ymlaen o fewn eu dedfrydau. Mae'r Bwrdd yn derbyn ceisiadau'n rheolaidd gan ddynion sy'n disgwyl cael eu trosglwyddo i gwblhau rhaglen, i fod yn nes at eu cartref a'u teulu neu i symud i gyfleusterau categori D. Mae Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar argaeledd llefydd trosglwyddo, sydd yn ei dro wedi cael effaith ddifrifol ar lesiant rhai dynion.

7.4 Teulu

Fel y rhan fwyaf o sefydliadau, mae Covid-19 wedi effeithio ar fynediad at ymweliadau wyneb yn wyneb, gyda theuluoedd a ffrindiau nad ydynt yn gallu ymweld â'r safle am lawer o'r flwyddyn adrodd.

Carchar EM y Berwyn oedd y carchar cyntaf i gyflwyno Ymweliadau Porffor ac roedd y Bwrdd yn croesawu hyn. Mae'r Bwrdd yn nodi bod tair terfynell addas i gynnal yr ymweliadau hyn ym mhob tî. Yn y cyfnodau byr lle caniatawyd ymweliadau corfforol, roedd ymweliadau digidol yn dal yn fwy poblogaidd.

Mae'r cyswllt drwy'r post wedi cael ei gynnal drwy gydol y cyfyngiadau symud ac mae dynion yn gallu cael gafael ar ohebiaeth sy'n cael ei hanfon drwy'r e-bost at garcharorion yn uniongyrchol ar eu gliniadur yn yr ystafell ac yn gallu ateb y derbynnydd yn ddigidol.

Mae gan drigolion y Berwyn ffôn yn eu hystafell, sy'n golygu bod modd cysylltu'n haws â theulu a ffrindiau yn ystod y cyfyngiadau symud, sy'n lleihau'r angen i staff ryddhau preswylwyr i giwio a defnyddio ffôn cyffredinol.

7.5 Cynllunio ailsefydlu

Oherwydd gwaith monitro wyneb yn wyneb cyfyngedig y Bwrdd yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae'r staff yn y tîm ailsefydlu wedi darparu gwybodaeth i'r Bwrdd er mwyn ein helpu i fonitro a llunio'r adroddiad hwn.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cafodd 966 o ddynion eu rhyddhau a chawsant rywfaent o gefnogaeth o ran asesu eu hanghenion ailsefydlu. Rhoddir mynediad i'r gwasanaethau yn ystod y cyfnod derbyn, 12 wythnos cyn rhyddhau a saith diwrnod cyn rhyddhau. Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu'r tîm ailsefydlu yn y Berwyn yn gweithio gyda thîm ailsefydlu St. Giles i ddarparu gwasanaethau cymorth.

Mae asesiadau o ddynion cyn eu rhyddhau yn cynnwys nodi unrhyw anghenion sydd gan y dyn, gan gynnwys ei lety yn y dyfodol, ei gyllid a'i berthynas â'r teulu. Mae'r Bwrdd wedi gwneud sylw ym mharagraff 3.2 uchod ynghylch yr angen i ganolbwyntio ar sicrhau llety sefydlog i bob dyn ar ôl iddo gael ei ryddhau.

8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Cafodd y flwyddyn adrodd hon gan y Bwrdd Monitro Annibynnol ei chynnal i raddau helaeth yn ystod pandemig Covid-19. Adlewyrchir hyn yn y mathau o geisiadau a gafodd y Bwrdd. Cysylltodd dynion â ni'n amlach (o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol) ynghylch eu llety, eu gweithgarwch pwrpasol, eu gohebiaeth (gan gynnwys llythyrau, ymweliadau a galwadau ffôn), eu gofal iechyd, rheoli eu dedfryd a gwelwyd cynnydd yn y categori amrywiol hefyd (efallai mai'r rheswm am hyn yw'r wybodaeth sydd weithiau'n gyfyngedig o geisiadau a godwyd drwy linell gymorth 0800).

Yn yr un modd, gwelodd y Bwrdd ostyngiad yn nifer y ceisiadau ar gyfer rhai categorïau yn ystod y flwyddyn adrodd. Cysylltodd carcharorion â ni'n llai aml am eu heiddo, eu heiddo wrth drosglwyddo, trosglwyddo rhwng sefydliadau a phryderon ynghylch perthnasoedd staff/carcharorion gan gynnwys bwlio. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw oherwydd bod mwy o amser yn cael ei dreulio y tu ôl i ddrws cell a'r cyfyngiadau a brofwyd yn ystod y flwyddyn ar symudiadau o fewn yr ystâd carchardai genedlaethol.

Mae cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd eleni wedi cynyddu dros gant o geisiadau o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol. Mae hyn yn cynnwys cyfnod byr pan na lwyddodd y Bwrdd i dderbyn ceisiadau, yn syth ar ôl i'r cyfyngiadau symud lleol ddechrau ym mis Mawrth 2020, nes i'r llinell gymorth ar gyfer ceisiadau 0800 ddechrau derbyn galwadau gan garcharorion ddiwedd mis Ebrill 2020.

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod y system llinell gymorth 0800 yn llwyddiant, gan ganiatáu i aelodau weithio ar geisiadau yn ystod y cyfyngiadau symud a phan nad oeddent yn gallu dod i'r sefydliad. Roedd aelodau'r Bwrdd yn rhan o'r broses

cyn lansio'r cynllun a buont yn cyngori ynghylch rhoi'r cynllun ar waith. Roedd aelodau'r Bwrdd hefyd wedi derbyn galwadau o'r diwrnod cyntaf ac wedi rhoi adborth i Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Monitro Annibynnol drwy nifer o gamau'r broses gyflwyno. Derbyniwyd cyfanswm o 483 o geisiadau ar y llinell gymorth 0800.

Ar ôl i'r rhai a atebodd y galwadau dderbyn y galwadau, anfonwyd y ceisiadau ymlaen at Gadeirydd y Bwrdd a chawsant eu dyrannu'n briodol i'r aelodau i'w hymchwilio ac yna ymateb drwy'r system E-bost Carcharorion.

Ystadegau'r Bwrdd

Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymhell	18
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	13
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	15
Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad	52
Cyfanswm yr adolygiadau cadw ar wahân a fynychwyd	35

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

Cod	Pwnc	Blwyddyn adrodd flaenorol	Blwyddyn adrodd bresennol
A	Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi	20	55
B	Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, IEP, sancsiynau	34	42
C	Cydraddoldeb	12	14
D	Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, y llyfrgell, trefn, amser y tu allan i'r gell	24	40
E1	Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau	32	82

	diogelu'r cyhoedd		
E2	Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant	14	19
F	Bwyd a cheginau	13	14
G	Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol	57	150
H1	Eiddo yn y sefydliad hwn	88	59
H2	Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn sefydliad neu leoliad arall	41	12
H3	Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au)	13	16
I	Rheoli dedfrydau, gan gynnwys HDC, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio	62	99
J	Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio	104	97
K	Trosglwyddiadau	44	24
L	Amrywiol, gan gynnwys y system gwyno	40	103
	Cyfanswm y ceisiadau	598	826

Cytunwyd ar yr adroddiad hwn yng nghyfarfod Bwrdd Monitro Annibynnol Carchar EM y Berwyn ym mis Gorffennaf a'i gymeradwyo gan y Cadeirydd, John Atherton, a'r Is-Gadeiryddion Susan Roberts a Mitchell Long.



Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk.